# Nodyn Canllaw: Busnes Cymdeithasol Cymru Cyllid Cyfnod Clo

**05.11.20**

Wrth i gyfnodau clo lleol gael eu disodli gan gyfnod atal byr cenedlaethol dros Gymru gyfan, bydd llawer o fusnesau cymdeithasol yn wynebu'r un anawsterau a gafwyd ym mis Mawrth. Datblygwyd y nodyn canllaw hwn i'ch cyfeirio at ffynonellau cymorth ariannol yn ystod y cam heriol hwn o'r pandemig.

Rydym hefyd wedi recordio gweminar i roi diweddariad ar gyllid a fydd yn ategu'r nodyn canllaw hwn, a gellir ei gwylio yma:
https://www.youtube.com/watch?v=TYO4uWk78ZA&feature=youtu.be

Yn ogystal â hyn, mae ein canllaw ar gyfnodau clo, sef 'Ymdopi â chyfnodau clo yn y dyfodol', hefyd yn adnodd da ac ymarferol i'ch helpu i gynllunio a pharatoi ar gyfer natur afreolaidd ac aflonyddol cyfnodau clo:
https://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/sites/socialbusinesswales/files/documents/Navigating%20Future%20Lockdowns%20Cym.pdf

Yn sgil yr holl newidiadau ers y sefyllfa gychwynnol, bydd y nodyn canllaw hwn yn eich cyfeirio at y cynlluniau cymorth a mentrau sydd ar gael i chi.

## Cymorth gan Lywodraeth Cymru:

Cyhoeddodd y Prif Weinidog becyn o fesurau gwerth £300m yn ddiweddar i gefnogi busnesau yng Nghymru yn ystod y cyfnod atal byr a'r cyfnodau clo. Mae'r mesurau hyn yn dod o dan drydydd cam y **Gronfa Cadernid Economaidd (ERF)**. Mae'r manylion i'w gweld yma: https://llyw.cymru/cyfnod-atal-byr-cenedlaethol-ycoronafeirws-i-gael-ei-gyhoeddi-yng-nghymru-ddydd-gwener

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Rhennir y cymorth hwn yn ddau faes penodol:

**Y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Lleol:** Bydd busnesau sy'n cael eu gorfodi I gau fel rhan o'r cyfnod atal byr ac sy'n bodloni'r meini prawf canlynol, yn derbyn taliad untro awtomatig i'w cyfrifon banc.

- Gall y busnesau sydd â gwerth ardrethol o £12,000 neu lai, ac sy'n cael eu gorfodi i gau yn sgil y cyfnod atal byr, hefyd **wneud cais** am grant gwerth £2,000 ychwanegol **am ddim**.
- Bydd grant **ychwanegol am ddim**, gwerth £1,000, hefyd ar gael i fusnesau o dan yr un amodau, lle y mae mesurau cyfnodau clo lleol wedi effeithio arnynt am **21 diwrnod** neu fwy ers dechrau'r cyfnod atal byr.

Yr awdurdodau lleol fydd yn gweinyddu'r elfen hon o'r cymorth ariannol, yn yr un modd â'r cymorth rhyddhad ardrethi busnes cychwynnol, a disgwyli'r i'r taliadau gael eu talu'n awtomatig i gyfrifon banc y sawl sy'n talu'r ardrethi.

Mae'r cynllun ar agor ar hyn o bryd. Gwneir y cais cychwynnol drwy safle Busnes Cymru cyn i ymgeiswyr gael eu cyfeirio at eu hawdurdod lleol eu hunain. Gwiriwch eich cymhwysedd gyda'ch awdurdod lleol ac ewch ar drywydd unrhyw oedi neu ymholiadau gyda nhw'n uniongyrchol drwy eu gwefannau eu hunain.
https://businesswales.gov.wales/cy/cyngorcoronafeirws/

**Grant Datblygu Busnes:** Er mwyn cefnogi busnesau yng Nghymru i 'ffynnu yn y dyfodol', mae ail ran y cymorth sydd ar gael o dan gam tri y Gronfa Cadernid Economaidd yn canolbwyntio'n glir ar feithrin gallu ac adnoddau yn y busnes I drosglwyddo i'w modelau busnes yn y dyfodol. Nod y gronfa hon yw rhoi cymorth I fusnesau yng Nghymru gyda phrosiectau datblygu er mwyn eu helpu i adfer o effeithiau pandemig Covid-19 a'u helpu i sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol.

**Mae'r gronfa hon wedi'i rhewi ar hyn o bryd.**

Mae'n anelu at gefnogi prosiectau sy'n gwella'r ffordd y caiff busnesau eu rhedeg yn sgil amgylchiadau presennol, yn enwedig prosiectau a fydd yn helpu i gynnal a chreu swyddi i bobl ifanc (25 oed ac iau), pobl ag anableddau a phobl o gymunedau BAME, a gallai prosiectau o'r fath fod yn gymwys i dderbyn gwobr uwch. Bydd y grantiau datblygu busnes ar agor i fusnesau o bob maint.

Ar gyfer busnesau'n ymwneud â Thwristiaeth a Lletygarwch, bydd disgresiwn I dderbyn grantiau o hyd at 100%. Gellir dod o hyd i fanylion llawn am y cynllun yma, gan gynnwys y gwiriwr cymhwysedd.

https://fundchecker.businesswales.gov.wales/erfphase3/cy

Mae'r meini prawf allweddol yn cynnwys bod yn gynwysedig, cael trosiant o dros £50k, cofrestru ar gyfer TAW neu wedi'u heithrio rhag TAW a gweithredu cynllun TWE gydag o leiaf un cyflogai llawn amser. Bydd angen i ymgeiswyr gael y canlynol yn barod ar gyfer eu cais llawn ar-lein.

Yn ogystal â hyn, mae rhai enghreifftiau defnyddiol o'r hyn y gall y cynllun ei ariannu: https://businesswales.gov.wales/cy/enghreifftiau-o-fuddsoddi-cam-3-y-gronfacadernid-economaidd

Bydd angen i ymgeiswyr llwyddiannus gofrestru i'r contract economaidd: https://businesswales.gov.wales/cy/y-contract-economaidd

Mae’r cyllid yn cwmpasu’r cyfnod rhwng mis Hydref 2020 i 31 Mawrth 2021. Roedd disgwyl i’r galw fod yn uchel ar gyfer y cynllun hwn gan ei fod yn agored i’r sector preifat hefyd. Dyrannwyd y cyllid yn gyflym iawn, felly cadwch olwg ar gyhoeddiadau gan Lywodraeth Cymru ynglŷn ag unrhyw wybodaeth am gronfeydd ychwanegol.

**Cam dau Cronfa Cadernid y Trydydd Sector:** Mae'r gronfa yn rhan o'r cymorth gwerth £24 miliwn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn cynnwys cymysgedd o 75% o grant a 25% o fenthyciad di-log i sefydliadau yn y sector gwirfoddol tuag at gostau gwariant refeniw parhaus, gan gynnwys cyflogau. Gall sefydliadau wneud cais am hyd at £100,000.

Mae ein gweminar gydag Alun Jones o Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru yn trafod manylion am y gronfa: https://www.youtube.com/watch?v=82NX7lFy_64

Gan ei bod wedi'i bilio fel cronfa pan fetho popeth arall, disgwylir y bydd sefydliadau eisoes wedi ceisio cael grantiau prif ffrwd i ddechrau. Nid yw wedi'i dylunio I ddyblygu unrhyw ddarpariaeth arall. Mae gan y gronfa feini prawf penodedig y gellir cael mynediad iddynt yma: https://wcva.cymru/cy/cyllid/buddsoddiad cymdeithasolcymru/cronfa-gwydnwch-cymhwysedd/
https://wcva.cymru/funding/socialinvestment-cymru/resilience-fund-eligibility/

Bydd angen i chi fynegi diddordeb i ddechrau, gan nodi eich cynlluniau, eu heffaith a nodi cyllideb ar eu cyfer. Unwaith y cytunir ar hyn, caiff ceisiadau eu hasesu mewn tair rhan yn ystod yr ail gam – llywodraethu, cyllid hanesyddol a chynnig ar gyfer gwariant.

Caiff y cynllun ei ddyrannu ar sail y cyntaf i'r felin, felly rydym yn argymell eich bod yn cysylltu â thîm Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru cyn dangos eich diddordeb I wirio cymhwysedd ac argaeledd. Gallwch gysylltu â nhw yn sic@wcva.cymru.

Gallwch gael rhagor o fanylion am y gronfa yma:
https://wcva.cymru/cy/cyllid/buddsoddiad-cymdeithasol-cymru/cronfa-gwydnwchtrydydd-sector-cymru/

## Cymorth Llywodraeth y DU:

Yn ogystal â chymorth sy'n canolbwyntio ar Gymru, bydd busnesau cymdeithasol hefyd yn gallu defnyddio'r mentrau cymorth a gyhoeddwyd yng Nghynllun y Gaeaf ar gyfer yr Economi: https://www.gov.uk/government/news/chancellor-outlineswinter-economy-plan

**Toriadau i Drethi:** ymestyn toriadau i drethi dros dro ar gyfer y sector lletygarwch a thwristiaeth, felly mae'r toriad o 15% yn golygu mai dim ond cyfradd dreth o 5% y byddant yn ei thalu tan ddiwedd mis Mawrth 2021.

**Cynllun Taliad Newydd:** ar gyfer biliau TAW a ohiriwyd gan alluogi cwmnïau i wneud 11 taliad di-log llai yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22 yn hytrach nag un cyfandaliad ym mis Mawrth 2021.

**Ad-dalu Tâl Salwch Statudol:** Bydd cyflogwyr cymwys yn gallu hawlio hyd at bythefnos o Dâl Salwch Statudol os byddwch yn hawlio ar gyfer cyflogai sy'n gymwys i dderbyn tâl salwch yn sgil y coronafeirws, a bod gennych gynllun TWE ar waith ar 28 Chwefror 2020 neu cyn hynny. Mae rhagor o fanylion ar gael yma:
https://www.gov.uk/guidance/claim-back-statutory-sick-pay-paid-to-employeesdue-to-coronavirus-covid-19

**Amodau Ad-dalu Benthyciadau:** i'w hymestyn o chwe blynedd i ddeng mlynedd ar

gyfer pob Benthyciad Tarfu ar Fusnes yn sgil y Coronafeirws a darparu Benthyciadau Adfer. Mae'r cyfnod ar gyfer gwneud cais am fenthyciadau fel rhan o'r ddau gynllun wedi'i ymestyn tan ddiwedd mis Tachwedd.

Gellir gwneud cais am y **Cynllun Benthyciad Tarfu ar Fusnes yn sgil y Coronafeirws** o hyd, ac mae'n cynnig benthyciadau o hyd at £5 miliwn. Ceir manylion llawn am y cynllun a gwarant y llywodraeth yma: https://www.gov.uk/guidance/apply-for-the-coronavirus-business-interruption-loanscheme

Gellir gwneud cais am y **Cynllun Benthyciad Adfer** o hyd ac mae'n fwy addas i sefydliadau llai sy'n ystyried benthyg rhwng £2,000 neu 25% o'r trosiant o hyd at £50,000. Mae'r llywodraeth yn cynnig gwarant o 100% yn erbyn y benthyciadau ac nid oes unrhyw ffioedd na llog yn daladwy yn y flwyddyn gyntaf.
https://www.gov.uk/guidance/apply-for-a-coronavirus-bounce-back-loan
Mae adnodd diagnostig defnyddiol ar wefan Llywodraeth y DU i'ch galluogi i weld pa gynlluniau a allai fod yn addas i chi yn seiliedig ar eich lleoliad, sector a'ch maint:

https://www.gov.uk/business-coronavirus-support-finder

**Y Cynllun Cadw Swyddi (Ffyrlo):** Mae hyn yn golygu y bydd busnesau cymdeithasol yng Nghymru sydd eisoes wedi defnyddio'r cynllun ar unrhyw adeg ers ei gyflwyno, yn gallu defnyddio'r cynllun eto i hawlio hyd at 80% o gostau cyflog. Bydd hefyd yn agored i gyflogwyr nad ydynt wedi defnyddio'r cynllun o'r blaen. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y rownd hon, mae angen iddynt sefydlu cynllun Talu wrth Ennill a bodloni'r amodau canlynol: https://www.gov.uk/guidance/claim-for-wages-through-thecoronavirus-job-retention-scheme

**Cynllun Cymorth Swyddi (JSS):** Roedd disgwyl i olynydd y cynllun ffyrlo ddechrau ar 1 Tachwedd, ond mae bellach wedi'i oedi oherwydd ymestyn y cynllun ffyrlo. Nid yw'n glir pryd y daw i rym. Rydym yn argymell eich bod yn cadw golwg ar gyhoeddiadau rheolaidd ac yn edrych ar wefan Llywodraeth y DU yn aml.

Mae'r cynllun yn wahanol iawn i'r cynllun ffyrlo ac mae'n dibynnu ar gyflogwyr yn dewis pa rolau o fewn eu sefydliad sy'n 'hyfyw' ac felly'n gymwys i gael cymorth, ac

mae’n llai hael. Felly pan fydd yn dod i rym, rydym yn argymell eich bod yn adolygu’r meini prawf a’r addasrwydd ar gyfer eich sefydliad. Mae'r manylion llawn i'w gweld yma: https://www.gov.uk/government/publications/job-support-scheme

## Dolenni ac Adnoddau Defnyddiol:

Mae **Busnes Cymdeithasol Cymru** wedi datblygu cyfres o nodiadau canllaw, gweminarau ac adnoddau er mwyn cefnogi busnesau cymdeithasol drwy gydol y pandemig a gellir cael gafael ar bob un ohonynt drwy'r hwb covid: https://cymru.coop/covid-19-hub/

Mae gan **Lywodraeth Cymru** lawer o ddolenni ac adnoddau defnyddiol er mwyn helpu unigolion a busnesau drwy gydol y pandemig: https://llyw.cymru/coronafeirws

**Cwestiynau cyffredin am y cyfnod atal byr gan Lywodraeth Cymru**
https://llyw.cymru/cyfnod-atal-y-coronafeirws-cwestiynau-cyffredin

Mae gan **Busnes Cymru** hwb canolog o wybodaeth, sy'n cynnwys gwybodaeth am y cyllid diweddaraf sydd ar gael:
https://businesswales.gov.wales/cy/cyngorcoronafeirws/

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

**Busnes Cymdeithasol Cymru**
**Social Business Wales**
/busnescymru.llyw.cymru/busnescymdeithasol
/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales

## A oes angen rhagor o gymorth arnoch?

Mae Busnes Cymdeithasol Cymru yma i helpu busnesau cymdeithasol o'r camau datblygu cynnar i ehangu, arallgyfeirio a thyfu. Mae gennym dîm o ymgynghorwyr a chynghorwyr busnes arbenigol a all roi cymorth un i un pwrpasol i'ch sefydliad. Os oes angen cymorth ar eich Busnes Cymdeithasol, cysylltwch ag aelod o'n tîm i weld sut y gallwn eich helpu:

**Ffôn: 0300 111 5050**
**E-bost:** sbwenquiries@wales.coop
https://cymru.coop/get-our-help/

***Caiff yr holl wybodaeth a'r dolenni rydym yn eu darparu yn y nodyn canllaw hwn eu rhannu gyda phob ewyllys da ac maent yn gyfredol ar adeg cyhoeddi'r canllaw hwn. Fodd bynnag, rydym yn argymell eich bod yn cadw llygad ar gyhoeddiadau a'r newidiadau i'r cynlluniau, felly dylech edrych ar y dolenni yn rheolaidd.***

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund